Cymunedau Ymarfer

# Cod Ymddygiad

Mae'r Cod Ymddygiad hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am ein cymunedau, gan gynnwys y rheolau a'r cyfrifoldebau y disgwyliwn i holl aelodau ein cymunedau (gan gynnwys hwyluswyr a hyrwyddwyr) eu dilyn. Mae'n adeiladu ar **Delerau ac Amodau**'r Hyb Gwybodaeth, ond nid yw'n eu disodli**.**

Data Cymru

## Yr hyn a ddisgwyliwn gennych chi…

**Cymryd rhan:** Cewch chi gyfrannu cymaint neu gyn lleied ag y dymunwch, ond po fwyaf a rowch i mewn mwyaf i gyd y cewch chi ohoni!

**Trin pawb gyda pharch:** Mae'r rhain yn gymunedau cefnogol lle mae aelodau yn gallu gofyn cwestiynau a rhannu profiadau yn rhydd rhag cael eu barnu.

**Parchu preifatrwydd pobl eraill:** Peidiwch â rhannu gwybodaeth personol neu gynnwys neb heb eu caniatâd.

**Ei chadw hi'n lân:** Os gwelwch chi ymddygiad neu gynnwys sy'n groes i'r Cod Ymddygiad hwn a/neu Delerau ac Amodau'r Hyb Gwybodaeth, tynnwch sylw ato a rhowch wybod amdano.

**Cael eich ysbrydoli:** Mae ein haelodau'n cael eu hannog i rannu syniadau a barn i helpu i ysbrydoli pobl eraill. Ond ni ddylai'r rhain gael eu hystyried fel cyngor neu argymhellion (proffesiynol neu fel arall).

## Dulliau o weithio…

Bydd gan bob cymuned 'hafan' (grŵp) ar-lein  ar yr Hyb Gwybodaeth, lle caiff aelodau gysylltu ag unigolion o'r un anian o bob rhan o sector cyhoeddus Cymru.

Efallai y bydd cyfarfodydd, y bydd eu hamlder a'u lleoliad yn cael eu cytuno gan bob cymuned. Caiff y rhain eu trefnu a'u hysbysebu trwy'r grŵp ar-lein.

Mae'n bosibl y trefnwn ni gyfleoedd penodol i gwrdd ar gais cymuned.

## Rolau…

**Hwylusydd**: Yn unol â Thelerau ac Amodau'r Hyb Gwybodaeth, mae gan bob cymuned nifer o hwyluswyr (staff Data Cymru fel arfer) sy'n gyfrifol am reoli'r grŵp, a'i gymedroli lle bo angen. Ein hwyluswyr sy'n gyfrifol hefyd am reoli ceisiau i ymaelodi.

Mae hwyluswyr bob cymuned yn cael eu rhestru ar dudalen hafan y grŵp. Gallwch chi gysylltu â hwylusydd drwy e-bostio ymholiadau@data.cymru.

**Hyrwyddwyr:** Mae gan bob cymuned hyrwyddwyr gwirfoddol hefyd sy'n helpu i sicrhau bod ein cymunedau'n ffynnu ar-lein. Mae ein hyrwyddwyr wedi cytuno i chwarae rôl ragweithiol mewn cadw gwybodaeth y grŵp yn gyfredol a'i gadw'n weithgar, a hynny trwy ychwanegu cynnwys newydd yn rheolaidd, cychwyn trafodaethau, annog cyfranogiad ac ymateb i sylwadau / cwestiynau. Byddant yn cefnogi hwyluswyr wrth gymedroli cynnwys hefyd yn ôl yr angen.

**Aelodau:** Ein haelodau yw craidd ein cymunedau – mae cymuned lwyddiannus yn dibynnu ar aelodau sy'n rhyngweithio ac yn defnyddio'r grŵp. Felly, peidiwch â bod yn swil – ewch ati i bostio!